Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024**

**DYDDIAD** **19 Medi 2024**

**GAN** **Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru**

**Y Gyfraith sy'n cael ei chychwyn:**

Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024

**Unrhyw effaith y gall y Rheoliadau ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n cychwyn gofynion deddfwriaethol ymarferol a gweithredol Deddf Caffael 2023 (y Ddeddf). Dim ond Gweinidog y Goron sydd â phwerau cychwyn o fewn y Ddeddf. Fodd bynnag, yn unol ag adran 127(3) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn darpariaethau o fewn y Ddeddf Caffael ar gyfer Awdurdodau Datganoledig Cymru.

**Diben y Rheoliadau**

Bydd y Rheoliadau hyn yn pennu 24 Chwefror 2025 yn ddyddiad y bydd darpariaethau o sylwedd y Ddeddf yn dod i rym, gan roi effaith gyfreithiol i'r drefn newydd. Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn dwyn i rym Adran 93 o'r Ddeddf ynghylch hysbysiadau Piblinell a byddant yn dirymu'r rheoliadau cyfredol.

Ni chaiff Gweinidog y Goron wneud rheoliadau penodedig o dan is-adran 127(2) heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau ar gael yma: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024

Bydd angen Rheoliadau Cychwyn ychwanegol i gychwyn darpariaethau pellach yn Neddf Caffael 2023, a bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer y rhain hefyd.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ni nodwyd unrhyw faterion o'r fath.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i Weinidog y Goron wneud y Rheoliadau Cychwyn hyn i bennu'r dyddiad dod i rym, gorchmynion cychwyn a threfniadau trosiannol.